
## Yr egwyddorion gweithredu ar gyfer Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 **Atodiad A**

Mae angen i ffurf y bartneriaeth gyd-fynd a'n amcanion sef:


- Arweinyddiaeth Strategol ar bob lefel i yrru'r weledigaeth a gweithredu ar lawr daear
- Llywodraethiant syml
- Cydlynu ac integreiddio (llorweddol a fertigol ar draws pob sefydliad)
- Gwneud defnydd effeithiol o adnoddau ac asedau
- Gwell gwybodaeth wrth wneud penderfyniadau
- Cynnwys a pherchnogaeth gan nifer
- Gyrru newid ac arloesi

Felly y nod yw aelodaeth lai ar ben y strwythur gyda chynrychiolaeth a mewnbwn partneriaeth ehangach ar waelod y strwythur yn bwydo i'r cyfeiriad strategol a'r gweithrediad.



Bydd gweinyddiaeth holl elfennau'r strwythur yn cael eu rhannu a'u cylchdroi yn flynyddol rhwng Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Bydd cyfarfodydd gweithredol hefyd yn cael eu cynnal ar lefel isaf y bartneriaeth er mwyn llywio cyfeiriad a sicrhau mewnbwn mwyaf eang posib.

## Strwythur Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035




**Pwrpas ac Aelodaeth:**

| **Grŵp** | **Pwrpas** | **Aelodaeth** |
|---|---|---|
| **Bwrdd Strategol y Bartneriaeth** | Cyfarfod 2 gwaith y flwyddyn.<br>• Arweinyddiaeth strategol a llais i sicrhau perchnogaeth o Gynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri gan randdeiliaid strategol yr economi ymweld;<br>• Cymeradwyo Cynllun Gweithredu Blynyddol y Grŵp Gweithredu a monitro gweithrediad y Cynllun.<br>• Bod yn lais wrth flaenoriaethu unrhyw gyfleon cyllido all fod ar gael;<br>• Goruchwylio'r Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth Bwrdd Strategol y Bartneriaeth a'i is-grwpiau | Cadeirydd: Arweinydd Cyngor Gwynedd a Chadeirydd Parc Cenedlaethol Eryri am yn ail<br>Gweinyddiaeth gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod y Parc<br>1. Arweinydd Cyngor Gwynedd<br>2. Pennaeth Adran Economi a Chymuned<br>3. Cadeirydd Parc Cenedlaethol Eryri<br>4. Prif weithredwr Parc Cenedlaethol Eryri<br>5. Arweinydd / Aelod Cyngor Conwy<br>6. Pennaeth Economi Cyngor Conwy<br>7. Twristiaeth Gogledd Cymru<br>8. Twristiaeth Canolbarth Cymru<br>9. Cadeirydd Fforwm Twristiaeth y Gogledd Croeso Cymru<br>10. Cadeirydd Grŵp Sector Twristiaeth (busnes)<br>11. Cadeirydd Grŵp Sector Twristiaeth (cymuned)<br><br>Sylwebydd: Croeso Cymru |
| **Grŵp Gweithredu'r Bartneriaeth** | Cyfarfod 4 gwaith y flwyddyn i ddechrau<br>• Adrodd i'r Bwrdd Strategol.<br>• Datblygu Cynlluniau gweithredu i'w cymeradwyo gan y Bwrdd Strategol<br>• Gweithredu a monitro'r Cynllun Gweithredu ar ran y Bwrdd Strategol.<br>• Comisiynu Ymchwil fel yr angen.<br>• Adnabod anghenion hyfforddiant a sgiliau.<br>• Datblygu prosiectau arloesol trwy gyfleon cydweithio.<br>• Rheoli Risg neu argyfwng.<br>• Sefydlu grwpiau tasg a chynnyrch os bydd cyfleon yn codi. | Cadeirydd: Swyddog o Gyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri neu Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Gweinyddiaeth gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod y Parc<br>1. Pennaeth Cynorthwyol Economi a Chymuned<br>2. Rheolwr Twristiaeth Cyngor Gwynedd<br>3. Pennaeth Partneriaethau Eryri<br>4. Rheolwr Partneriaeth yr Wyddfa<br>5. Swyddog Twristiaeth Conwy<br>6. Cadeirydd / is-gadeirydd Grŵp Sector (busnes)<br>7. Cadeirydd / is-gadeirydd Grŵp Sector (cymuned) |

| | | |
|---|---|---|
| | • Bod yn lais i sicrhau perchnogaeth o Gynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri gan brif randdeiliaid yr economi ymweld.<br>• Trafod, rhoi barn a monitro gweithrediad Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035, ei fesuryddion a'i Gynllun Gweithredu.<br>• Goruchwylio'r Cylch Gorchwyl ac Aelodaeth y Bartneriaeth gan ei addasu fel yr angen gyda chymeradwyaeth y Bwrdd . | |
| **Grŵp Sector Twristiaeth** | Cyfarfod 2 waith y flwyddyn ar lein neu'n ffisegol<br>• Fforwm cyswllt sector<br>• Rhannu gwybodaeth efo'r sector<br>• Adnabod Blaenoriaethau a materion ar gyfer y flwyddyn olynol i'w adrodd i'r Grŵp Gweithredu<br>• Adrodd ar weithredu'r Cynllun | Cadeirydd: Un Cadeirydd o'r sector fusnes ac un cadeirydd o'r sector cymunedol<br>Is-gadeirydd: Un o'r sector fusnes ac un o'r sector cymunedol<br>Aelodau: Unrhyw un a diddordeb o'r sector |

**Strwythur Gweithredu ehangach ar gyfer Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035 yn cynnwys cyfarfodydd gweithredol**



**Aelodaeth Cyfarfodydd a Grwpiau Gweithredol Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035**

| | | |
|---|---|---|
| **Grwp Ymgynghorol Sector Cyhoeddus** | Cyfarfod 2 waith y flwyddyn ar lein neu'n ffisegol<br>• Fforwm ymgynghorol gyda phartneriaid sector cyhoeddus a strategol<br>• Rhannu gwybodaeth am y Cynllun Gweithredu<br>• Adnabod blaenoriaethau ar y cyd<br>• Adrodd ar weithredu'r Cynllun<br>• Mesuryddion cyffredin a thracio trends o ran ymchwil, data a sgiliau | Cadeirydd: Cyngor Gwynedd / Parc Cenedlaethol Eryri / Cyngor Conwy am yn ail<br>**Aelodau:**<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Cadw<br>Croeso Cymru<br>AHNE<br>Prifysgol Bangor<br>Grŵp Llandrillo Menai<br>Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| **Grŵp ymgynghorol Ymchwil, Datblygu a Sgiliau** | Cyfarfod 2 waith y flwyddyn ar lein neu'n ffisegol<br>• Adrodd ar weithredu'r Cynllun<br>• Cytuno ar Fesuryddion cyffredin<br>• Tracio trends o ran ymchwil, data a sgiliau | Cadeirydd: Cyngor Gwynedd<br>**Aelodau:**<br>Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata Cyngor Gwynedd<br>Ymchwil Cyngor Gwynedd<br>Parc Cenedlaethol Eryri<br>Cyngor Conwy<br>Grŵp Llandrillo Menai<br>Prifysgol Bangor<br>Aelod o'r Grŵp Sector Twristiaeth |
| **Grwpiau Ymgynghorol Lleol Ardal Ni** | Cyfarfod fel yr angen ar lefel leol<br>Gweinyddiaeth trwy swyddogion Cefnogi Cymunedau neu strwythurau lleol<br>Fforwm leol i weithredu Cynlluniau Ardal Ni | Cadeirydd: i'w gytuno yn lleol trwy drefniadau Ardal Ni<br>Aelodau: I'w cytuno yn lleol trwy drefniadau Ardal Ni |
| **Fforwm Partneriaeth Gwynedd ac Eryri 2035** | Cyfarfod 1 waith y flwyddyn ar lein neu'n ffisegol.<br>• Rhannu Gwybodaeth am weithredu'r Cynllun<br>• Codi proffil y sector | Cadeirydd: Cadeirydd y Bwrdd Strategol<br>Gweinyddiaeth gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |

| | | |
|---|---|---|
| | • Darparu Hyfforddiant<br>• Derbyn adborth ar flaenoriaethau i'r flwyddyn ddilynol | Aelodaeth: Unrhyw un a diddordeb yn y maes |
| **Grwpiau Tasg** | Cyfarfod fel yr angen i'r maes gwaith a'r flaenoriaeth i weithredu.<br>Arweinydd y Grŵp yn ddibynnol ar y maes gwaith. | Aelodaeth yn seiliedig ar y maes gwaith – hyblyg a medru addasu fel yr angen.<br>Gweinyddiaeth fel yr angen gan gorff arweiniol. |